



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Jan 2022]

Annwyl

Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â Cham 3 Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2022 (GSU00)

1. Dyfarnu Cyllid

- (a) Mae'n bleser eich hysbysu bod eich Cais wedi bod yn llwyddiannus, a bod cyllid o hyd at £000000 ("y Cyllid") wedi ei ddyfarnu ichi ar gyfer y Dibenion (fel y'u diffinnir yn Amod 4(a)).
- (b) Mae'r Cyllid yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 28 Chwefror 2022 a rhaid ei hawlio'n llawn erbyn 31 Mawrth 2022 neu fel arall bydd unrhyw ran o'r Cyllid a fydd heb ei hawlio yn peidio â bod ar gael ichi.
- (c) Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch dyfarnu'r Cyllid hwn neu ynghylch yr Amodau, cysylltwch â'r Swyddog yn Llywodraeth Cymru a fydd yn barod iawn i'ch helpu.

2. Awdurdod statudol a Rheoli Cymhorthdal

- (a) Gwneir y dyfarniad Cyllid hwn yn unol â'r Amodau ac yn ddarostyngedig iddynt, ac o dan awdurdod Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, un o Weinidogion Cymru, sy'n gweithredu yn unol â swyddogaethau a drosglwyddwyd o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adrannau 126-128 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("Deddf 1996").
- (b) Rhaid ichi sicrhau bod defnydd o'r Cyllid yn gydnaws â'r cytundebau perthnasol a geir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys Protocol Gogledd Iwerddon y DU ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol. Darperir y cyllid drwy gynllun cymhorthdal 'Cronfa Adferiad Ddiwylliannol' cofrestredig

Llywodraeth Cymru SC10245. Mae hyn yn cyd-fynd â 'Fframwaith Dros Dro Cymorth Gwladwriaethol yr UE i gefnogi economïau'r UE yng nghyd-destun Covid-19' am gyfnod cyfyngedig tan 1 Chwefror 2022 ac ar yr amod bod yr ymgeisydd yn bodloni'r amodau. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl gyllid a ddarperir o'r gronfa hon yn parchu'r trothwyon hyn ac yn ystyried yr holl gymorth arall cysylltiedig â'r Fframwaith Dros Dro a geir gan ymgeiswyr, o bob ffynhonnell.

3. Dehongli'r Amodau

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau hyn at:
'**chi**', '**eich**' yn gyfeiriad at xxxxxxx

Rhif cofrestru'r cwmni – **xxxxxxx**

Mae '**ni**', '**ein**' yn cyfeirio at Weinidogion Cymru;

Mae '**Swyddog Llywodraeth Cymru**' yn cyfeirio at

Gerwyn Evans
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 615648
E-bost: Gerwyn.evans@llyw.cymru
neu unrhyw un arall o swyddogion Llywodraeth Cymru y byddwn yn eich hysbysu amdano.

Mae '**Rheolwr Prosiect**' yn cyfeirio at
xxxxxxxxxxxxxx

]

Mae '**Cais**' yn cyfeirio at eich cais dyddiedig 31 Mawrth 2022

Mae '**Amodau**' yn cyfeirio at y telerau a'r amodau a nodir yn y llythyr hwn ac yn yr Atodlenni;

Mae '**Costau a ysgwyddir**' yn cyfeirio at gost y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydych wedi eu cael pa un a fyddwch wedi talu amdanynt ai peidio erbyn 30 Mawrth 2022;

Mae '**Costau a dalwyd**' yn cyfeirio at gost y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydych wedi eu cael ac wedi talu amdanynt erbyn 30 Medi 2022;

'Contract Diwylliannol' yw eich ymrwymiad i helpu i gefnogi twf cynhwysol a llesiant gwell yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Mae'n adlewyrchu'r mathau o ymddygiadau y mae sefydliadau cyfrifol a llwyddiannus yn eu harfer eisoes;

Mae **'Digwyddiad Hysbysu'** yn cyfeirio at unrhyw un neu rai o'r digwyddiadau sy'n cael eu rhestru yn Atodlen 2;

Mae **'Personél'** yn cyfeirio at eich rheolwyr/cyflogeion a'ch cyflenwyr neu unrhyw berson arall a benodir neu a gyflogir gennych mewn perthynas â'r Dibenion;

'Proffil Talu Dangosol' yw'r proffil talu dangosol a nodir yn Atodlen 1;

Mae **'Atodlen'** yn cyfeirio at yr atodlenni a atodir i'r llythyr hwn;

bydd **unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth** boed yn gyfraith ddomestig neu ryngwladol yn cynnwys yr holl ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth honno a'r holl amnewidiadau ac ailddeddfiadau ohoni a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

4. Defnyddio'r Cyllid

- (a) Rhaid ichi ddefnyddio'r Cyllid at y dibenion a nodir yn Atodlen 1, ac at y dibenion hynny yn unig (y "**Dibenion**").
- (b) Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Dibenion neu'r Targedau, bydd angen ichi gael ein caniatâd ysgrifenedig cyn gweithredu'r newidiadau hynny. Nodwch nad oes yn rhaid inni roi caniatâd, ond byddwn yn ystyried pob cais ysgrifenedig rhesymol.
- (c) Rhaid ichi beidio â defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid ar gyfer: (1) dibenion pleidiau gwleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) hapchwarae; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu offer cyfalaf (ar wahân i'r hyn a bennir yn y Dibenion); (7) eich ffioedd cyfreithiol mewn cysylltiad â'r llythyr hwn; (8) Costau a Ysgwyddir neu gostau a ysgwyddir neu a delir gennych wrth gyflawni'r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1 (b); (9) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (10) unrhyw fath arall o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri arnom.

5. Rhagamodau'r Cyllid

- (a) Ni fyddwn yn talu unrhyw ran o'r Cyllid ichi nes y byddwch wedi darparu:

- (i) y llythyr hwn wedi ei lofnodi gennych;
- (b) Pan fydd angen ichi ddarparu gwybodaeth a dogfennau inni yn dystiolaeth eich bod wedi bodloni rhagamod penodol, rhaid i'r wybodaeth a'r dogfennau fod yn dderbyniol inni ym mhob ffordd. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw wybodaeth a dogfennau nad ydynt yn dderbyniol inni am unrhyw reswm.

6. Y Cyllid

- (a) Caiff y Cyllid ei dalu ichi mewn xx r(h)andaliad(au) fel yr amlinellir yn atodlen 1.
- (b) Byddwn yn anelu at dalu'r rhandaliad cyntaf ichi ymhen 28 diwrnod i'r dyddiad y daw eich llythyr llofnodedig i law.
- (c) Mae'r ail randaliad yn falans dangosol o'r grant sy'n weddill ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei leihau ar sail unrhyw incwm a geir yn ystod y cyfnod cyntaf (misoedd Ebrill, Mai a Mehefin).

7. Eich ymrwymadau cyffredinol chi inni

Rhaid ichi:

- (a) diogelu'r Cyllid rhag twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, twyll ar ran eich Personél, a rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith os bydd gennych reswm i amau bod twyll wedi digwydd yn eich sefydliad, ei fod yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, p'un ag a yw'n ymwneud â'r Cyllid ai peidio. Rhaid ichi hefyd gymryd rhan yn y cyfryw fentrau atal twyll ag y byddwn yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd:
- (b) cynnal gweithdrefnau priodol ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro buddiannau, boed yn wrthdaro gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig;
- (c) cydymffurfio â phob cyfraith neu reoliad domestig neu ryngwladol cymwys neu pob cyfarwyddyd swyddogol cymwys;
- (d) cynnal yswiriant digonol ar gyfer y risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd yr ymgwymerir ag ef wrth gyflawni'r Dibenion. Rydym yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol ichi gyflwyno dystiolaeth o'ch yswiriant;
- (e) cynnal systemau ariannol, risg a rheoli priodol cyn defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau oddi wrth drydydd partïon;

- (f) cydweithredu'n llawn â Swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw un neu rai o gyflogeion eraill Llywodraeth Cymru neu unrhyw ymgynghorydd a benodir gennym i fonitro'r modd y byddwch yn defnyddio'r Cyllid a chydymffurfio â'r Amodau hyn;
- (g) rhoi gwybod inni ar unwaith os bydd unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 8 yn anghywir mewn unrhyw fodd neu, o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny, y byddai'n anghywir.
- (h) ein hysbysu am unrhyw gyllid a gafwyd gennych o unrhyw ffynhonnell mewn perthynas ag effeithiau lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19) gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i'ch darparwr yswiriant (yswiriant canslo/tarfu ar fusnes), y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a ddarperir gan Lywodraeth y DU ac/neu unrhyw un neu rai o gronfeydd/gynlluniau Llywodraeth Cymru.

8. Datganiadau

Rydych yn datgan:

- (a) bod gennych y pŵer i ymgymryd â'r rhwymedigaethau a bennir yn yr Amodau hyn a'u cyflawni, a'ch bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi ymgymryd â'r rhwymedigaethau a'u cyflawni o dan yr Amodau hyn;
- (b) nad oes achos o ymgyfreitha na chymrodeddu ar y gweill, yn yr arfaeth, nac wedi ei fygwth hyd y gwyddoch, sydd yn cael, neu a allai gael, effaith anffafriol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'r Amodau hyn;
- (c) bod yr wybodaeth yn eich Cais yn gyflawn, yn wir ac yn gywir;
- (d) eich bod wedi datgelu inni yr holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae angen eu datgelu er mwyn inni gael darlun gwir a chywir o'ch busnes a'ch gweithgarwch (cyfredol ac arfaethedig), neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid ichi;
- (e) nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau, boed yn rhai gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig;
- (f) ni fydd derbyn y dyfarniad Cyllid hwn yn arwain at gyllid dyblyg mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Dibenion. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i daliadau a gafwyd gennych mewn

perthynas ag effeithiau lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19) oddi wrth eich darparwr yswiriant (yswiriant canslo/tarfu ar fusnes), drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a ddarperir gan Lywodraeth y DU ac/neu o unrhyw un neu rai o gronfeydd/gynlluniau Llywodraeth Cymru.

9. Digwyddiadau Hysbysadwy a'u canlyniadau

- (a) Rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith am unrhyw Ddigwyddiad Hysbysadwy a fydd wedi digwydd neu sy'n debygol o ddigwydd ond rydym hefyd yn cadw'r hawl i'ch hysbysu chi pan fyddwn o'r farn bod Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd neu ei fod yn debygol o ddigwydd;
- (b) Byddwn naill ai (i) yn eich hysbysu ein bod o'r farn nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy neu, (ii) os byddwn o'r farn bod modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy, byddwn yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi gyda golwg ar gytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy.
- (c) Bydd yr hawl gennym i gymryd unrhyw un o'r camau a restrir yn Amod 9(d):
 - (i) os na fyddwn, er gwaethaf ein hymdrechion rhesymol, wedi llwyddo i drafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi; neu
 - (ii) os byddwn yn eich hysbysu nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy; neu
 - (iii) os na chytunir gyda chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy; neu
 - (iv) os cytunir gyda chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy a chithau wedyn yn peidio â dilyn y camau hynny, neu os na fodlonir unrhyw amod sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, yr amserlen ar gyfer y cyfryw gamau gweithredu); neu
 - (v) os yw'r ffordd o weithredu yn methu ag unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy mewn modd sydd wrth ein bodd ni.
- (d) Os digwydd unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir yn Amod 9(c) gallwn eich hysbysu ein bod yn:
 - (i) tynnu'r dyfarniad Cyllid yn ôl; a/neu
 - (ii) ei gwneud yn ofynnol ichi ad-dalu'r cyfan neu ran o'r Cyllid; a/neu
 - (iii) atal dros dro neu'n derfynol bob taliad pellach o'r Cyllid; a/neu
 - (iv) gwneud pob taliad pellach o'r Cyllid yn ddarostyngedig i ba amodau bynnag a bennir gennym; a/neu

- (v) tynnu pob swm sy'n ddyledus inni o dan yr Amodau hyn o unrhyw gyllid arall yr ydym wedi ei ddyrannu ichi neu y gallem ei ddyrannu ichi; a/neu
- (vi) arfer yn eich erbyn unrhyw hawliau eraill a allai fod gennym mewn perthynas â'r Cyllid.
- (e) Rhaid i bob ad-daliad Cyllid gael ei wneud ymhen 28 diwrnod i ddyddiad ein gorchymyn.

10. Gofynion monitro

Rhaid ichi:

- (a) darparu inni'r cyfryw ddogfennau, gwybodaeth ac adroddiadau y gallwn yn rhesymol ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd, er mwyn inni fedru monitro eich bod yn cydymffurfio â'r Amodau.
 - (i) Ymhen 12 mis i'r dyddiad y talwyd y Cyllid ichi, mae'n rhaid ichi ddarparu'r canlynol :-
 - Adroddiad cwblhau byr yn cadarnhau sut y defnyddiwyd y Cyllid. Mae'n rhaid ichi hefyd nodi sut y byddwch wedi bodloni'r 'Contract Diwylliannol' yn ystod 2022. Mae'n rhaid ichi lenwi templed 'Contract Diwylliannol' os yw'r Cyllid yn £10,000 neu'n fwy.
 - Tystiolaeth am Gostau a Dalwyd fel y nodir yn Atodlen 1, ar ffurf anfonebau â derbynebaw sy'n cael eu hategu gan gyfriflenni banc.
 - Tystiolaeth eich bod rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 28 Chwefror 2022 a rhaid ei hawlio'n llawn erbyn 31 Mawrth 2022 wedi gweld gostyngiad yn eich trosiant fel y nodir yn eich Cais.
 - Tystiolaeth ar ffurf copi o'ch cyflogres o ddyddiad dyfarnu'r cyllid hwn tan 12 mis yn ddiweddarach, sy'n cadarnhau nifer y cyflogeion.

- (b) cyfarfod â Swyddog Llywodraeth Cymru a pha rai eraill o'n cynrychiolwyr y gallwn yn rhesymol ofyn ichi gyfarfod â hwy o bryd i'w gilydd;
- (c) sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu'r cyfryw berson arall y cytunir arno gennym ni), ynghyd ag unrhyw berson arall a fydd yn ofynnol gennym, yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd gyda Swyddog Llywodraeth Cymru.

11. Gofynion Archwilio

- (a) Rhaid ichi:
 - (i) cadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn, cywir a dilys sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r Dibenion;
 - (ii) yn ddi-dâl, caniatáu i unrhyw un neu rai o swyddogion Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw un o gyrff y DU sy'n gorfodi mewn perthynas â chymorthdaliadau, ar unrhyw adeg resymol ac ar ôl ichi gael cyfnod rhesymol o rybudd (o dan amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol ichi), ymweld â'ch mangre a/neu arolygu unrhyw un neu rai o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o'ch llyfrau cyfrifon a pha ddogfennau neu gofnodion eraill, sut bynnag y'u cedwir, a allai, ym marn resymol y swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r modd yr ydych yn defnyddio'r Cyllid. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw un o gyrff y DU sy'n gorfodi mewn perthynas â chymorthdaliadau neu gan unrhyw un o swyddogion, gweision neu asiantiaid unrhyw un o'r uchod;
 - (iii) cadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Cyllid hyd nes inni roi gwybod ichi yn ysgrifenedig ei bod yn ddiogel eu dinistrio.
- (b) O dan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad eang i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae pŵer ganddo ef a'i swyddogion i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol, sy'n rheoli neu'n dal dogfennau, roi pa gymorth, gwybodaeth ac esboniadau bynnag y gofynnant amdanynt; a'i gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ymddangos

ger eu bron at y cyfryw ddiben. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar unrhyw adeg resymol.

12. Rhwymedigaethau i drydydd partion

- (a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn sy'n gosod unrhyw rwymedigaeth arnom mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth sy'n ddyledus gennych i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).
- (b) Rhaid ichi ein hindemnio rhag unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion cyfreithiol, galwadau am dâl, colledion, costau a threuliau, a ddioddefir neu a ysgwyddir gennym yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i unrhyw fethiant ar eich rhan neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant ar eich rhan i gyflawni, yn llawn neu'n rhannol, unrhyw rwymedigaeth a allai fod arnoch i drydydd parti.

13. Hawliau eiddo deallusol a chyhoeddusrwydd

- (a) Nid oes dim yn yr Amodau hyn yn trosglwyddo inni unrhyw hawliau mewn eiddo deallusol a grëir gennych chi o ganlyniad i'r Dibenion.
- (b) Rydych yn cytuno bod hawl gennym, o ddyddiad y llythyr hwn tan 5 mlynedd o'r dyddiad y gwneir taliad olaf y Cyllid, gynnwys manylion eich sefydliad a'ch busnes, y Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac rydych yn cytuno ymhellach i gydweithredu â cheisiadau rhesymol gennym at y diben o baratoi deunyddiau o'r fath.
- (c) Rydych yn cytuno y bydd eich enw a faint o gyllid a ddyfarnwyd ichi yn cael eu cyhoeddi ar wefan Covid-19 sydd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

14. Gwybodaeth

- (a) Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (yr "FOIA"), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (yr "EIR"), Deddf Diogelu Data 2018 (y "DPA") a'r fersiwn a ddargadwyd o gyfraith yr UE, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Rheoliad (EU) 2016/679) ("GDPR y DU").
- (b) Rydych yn cydnabod mai ni sy'n gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn absoliwt a ddylid:

- (i) datgelu unrhyw wybodaeth a gawsom o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid, i'r graddau y mae'n ofynnol inni ddatgelu'r cyfryw wybodaeth i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan y FOIA neu'r EIR; a/neu
 - (ii) esemptio unrhyw wybodaeth rhag y gofynion datgelu o dan y FOIA neu'r EIR.
- (c) Rydych yn cydnabod y cawn rannu unrhyw ddata yr ydych yn eu darparu inni gydag asiantaethau gwrth-dwyll a thrydydd partion at ddibenion atal a datgelu twyll. Rheolir unrhyw ddata personol a gesglir gennym yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd sydd i'w weld yma <https://beta.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru>

15. Prynu nwyddau a gwasanaethau

Os penderfynwch brynu unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau i gyflawni'r Dibenion, rhaid eu prynu mewn modd cystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.

16. Hysbysu

- (a) Lle y bo'n ofynnol rhoi hysbysiad o dan yr Amodau hyn, rhaid iddo fod yn ysgrifenedig (nid yw hyn yn cynnwys e-bost, ond caiff gynnwys llythyr a atodir i e-bost) a rhaid iddo arddangos y pennawd a ganlyn yn amlwg:

“Hysbysiad ynghylch Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru”.

- (b) Mae'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt er mwyn cyflwyno hysbysiad o dan yr Amodau hyn fel a ganlyn

Chi: y Rheolwr Prosiect yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

Ni: Swyddog Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

- (c) Ystyrir bod hysbysiad wedi ei gyflwyno'n briodol fel a ganlyn:-

Post dosbarth cyntaf rhagdaledig: ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad postio.

Â llaw: ar yr adeg y'i danfonir i'r cyfeiriad, neu'r diwrnod gwaith nesaf os yw'n cyrraedd ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu ŵyl gyhoeddus.

Drwy atodiad e-bost:

ar yr adeg y'i trawsyrrir, neu'r diwrnod gwaith nesaf os trawsyrrir ar ôl 4pm neu ar benwythnos neu ŵyl gyhoeddus.

17. Cyfle cyfartal

Rhaid ichi weithredu polisi cyfle cyfartal fel cyflogwr, fel defnyddiwr gwirfoddolwyr, ac fel darparwr gwasanaethau, heb ystyried hil, rhyw/hunaniaeth rywiol, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu unrhyw anabledd.

18. Yr Iaith Gymraeg

- (a) Pan fo'r Dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai ei bod yn afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Os ydynt yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid iddynt gael eu darparu mewn modd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- (c) I gael cyngor ynghylch darparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac yn unol â'r Amodau, cysylltwch â thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg:
<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>

19. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

Rydych yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio, a bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynglŷn â phob swyddogaeth unigol yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol, gan eithrio pob ystyriaeth amherthnasol. Rydych yn cytuno na fydd dim sy'n gynwysedig yn yr Amodau hyn neu sydd ymhlyg ynddynt, neu sy'n codi oddi tanynt neu mewn cysylltiad â hwy, mewn unrhyw fodd yn niweidio, yn llyffetheirio, neu'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru nac ar unrhyw un neu rai ohonynt, nac yn rhwymo Gweinidogion Cymru, nac unrhyw un neu rai ohonynt i arfer eu swyddogaethau, neu ymatal rhag eu harfer, mewn unrhyw fodd penodol.

20. Cyffredinol

- (a) Os digwydd i unrhyw un o'r Amodau hyn, ar unrhyw adeg, fynd, neu gael ei ystyried, yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy mewn unrhyw fodd o dan unrhyw gyfraith, nid effeithir ac nid amherir mewn unrhyw fodd ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb a gorfodadwyedd gweddill y darpariaethau.
- (b) Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ein rhan ni i arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi o dan yr Amodau yn gyfystyr â hawlildio'r cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi, nac yn ein rhwystro rhag arfer y cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi ymhellach, neu arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi arall. Mae'r pwerau, yr hawliau neu'r rhwymedïau a ddarperir drwy hyn yn rhai cronnus, ac nid ydynt yn eithrio unrhyw bwerau, hawliau neu rwymedïau a ddarperir drwy gyfraith.
- (c) Rhaid i unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i'r Amodau fod yn ysgrifenedig a chael ei lofnodi gennym ni a chennych chi, yn yr un modd â'r llythyr hwn. Fodd bynnag, rydych yn cydnabod bod Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru yn ymateb brys gan Lywodraeth Cymru i effaith lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19). Efallai y byddwn, felly, gan weithredu'n rhesymol bob amser, yn diwygio'r Amodau yn uochrog ar unrhyw adeg i adlewyrchu newidiadau mewn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, newid perthnasol i'ch amgylchiadau, newid perthnasol i bolisïau Llywodraeth Cymru ac/neu er mwyn sicrhau bod y pwrs cyhoeddus yn cael y gwerth gorau am arian.
- (d) Ni chaniateir ichi aseinio, na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall, eich hawliau, eich buddion, eich rhwymedigaethau na'ch dyletswyddau o dan yr Amodau.
- (e) Bydd Amodau 7, 9, 11, 13, 14, a 20(e), a'r cyfryw Amodau eraill y mae angen iddynt, drwy oblygiad, barhau mewn grym y tu hwnt i daliad olaf y Cyllid, yn parhau felly yn eu llawn rym ac effaith.
- (f) I chi yn unig y gwneir y dyfarniad Cyllid ac nid oes gan neb arall hawl i wneud unrhyw hawliad mewn perthynas â'r Cyllid, nac ychwaith i ddibynnu ar unrhyw un neu rai o'r Amodau hyn na'u gorfodi.
- (g) O dan amgylchiadau lle'r ydych yn ddau neu fwy o bersonau neu gyrff, bydd rhwymedigaethau'r personau neu'r gyrff hynny yn rhai ar y cyd ac yn unigol, a bydd diffyg ar ran un o'r personau neu'r gyrff yn cael ei gyfrif yn ddiffyg ar ran pob un.
- (h) Llywodraethir a dehonglir yr Amodau yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y'u cymhwysir yng Nghymru, ac mae'r partion i'r Amodau hyn yn ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

20. Sut i dderbyn y cynnig hwn o Gyllid

- (a) Er mwyn derbyn y dyfarniad Cyllid hwn, rhaid ichi lofnodi ac anfon copi o'r llythyr hwn yn ôl at Swyddog Llywodraeth Cymru. Ni fydd dim o'r Cyllid hwn yn cael ei dalu ichi hyd nes y bydd eich llythyr llofnodedig wedi dod i law.
- (b) Rhaid i'ch llythyr llofnodedig ddod i law ymhen 14 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn, neu bydd y dyfarniad Cyllid hwn yn cael ei dynnu'n ôl yn awtomatig.

Yn gywir

Llofnodwyd gan Jason Thomas
o dan awdurdod Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif
Chwip, un o Weinidogion Cymru.

ATODLEN 1 Y Dibenion

Diben y Cyllid yw eich cefnogi gyda chymorth ariannol o ganlyniad i'r achosion o Covid-19.

ATODLEN 2 Digwyddiadau Hysbysadwy

Mae'r Digwyddiadau Hysbysu y cyfeirir atynt yn Amod 9 yn cael eu rhestru isod:

1. ei bod yn ofynnol ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol;
2. eich bod yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r Amodau;
3. nad yw'r Cyllid, yn llawn neu'n rhannol, yn cael ei ddefnyddio at y Dibenion;
4. bod cynnydd anfoddhaol yn cael ei wneud tuag at gwblhau'r Dibenion,
5. eich bod yn methu â darparu gwybodaeth am y Dibenion y gofynnir amdani gennym ni neu gan unrhyw un neu rai o gyrff y DU sy'n gorfodi cymorthdaliadau, neu unrhyw un neu rai o'u harchwilwyr, asiantiad neu gynrychiolwyr;
6. bod rheswm gennym dros gredu eich bod chi a/neu unrhyw un neu rai o'ch Personél yn cymryd rhan mewn gweithgarwch twyllodrus neu wedi bod yn rhan o weithgarwch twyllodrus wrth i'r Dibenion gael eu cyflawni;
7. ein bod wedi gordalu Cyllid ichi;
8. bod cyllid yn cael ei ddyblygu mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Dibenion. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw wedi'i gyfyngu i unrhyw daliadau a gafwyd gennych mewn perthynas ag effaith lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19) oddi wrth eich darparwr yswiriant (yswiriant canslo/tarfu ar fusnes), y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a ddarperir gan Lywodraeth y DU ac/neu unrhyw un neu rai o gronfeydd/gynlluniau Llywodraeth Cymru.
9. bod unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 8 yn anghywir mewn unrhyw fodd, neu o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny, y byddai'n anghywir;

10. bod barn yr archwilydd am eich datganiadau ariannol yn cael ei haddasu (sy'n golygu bod y farn honno yn un amodol, yn anffafriol neu dan ymwadiad);
11. bod unrhyw ddeiseb yn cael ei chyflwyno neu benderfyniad yn cael ei basio neu gamau'n cael eu cymryd fel arall mewn perthynas â'ch gwneud yn fethdalwr neu'ch dirwyn i ben, neu fod deiseb yn cael ei chyflwyno am orchymyn gweinyddu yn eich erbyn;
12. bod derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol yn cael ei benodi mewn perthynas â chi, neu mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o'ch asedau;
13. bod moratoriwm mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw un o'ch dyledion, neu y cytunir ar gompównd neu gytundeb gyda'ch credydwy, y gwneir cais am gompównd neu gytundeb, y'i gorchmynnir neu y'i datgenir;
14. nad ydych yn gallu talu'ch dyledion, neu eich bod yn cyfaddef yn ysgrifenedig nad ydych yn gallu talu eich dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus;
15. bod unrhyw atafaeliad, gweithrediad, ymglymiad neu broses arall yn effeithio ar unrhyw un o'ch asedau;
16. bod archeb statudol yn cael ei dyroddi yn eich erbyn;
17. eich bod yn rhoi'r gorau, neu'n bygwth rhoi'r gorau, i gynnal y cyfan neu ran sylweddol o'ch busnes;
18. bod newid yn eich cyfansoddiad, eich statws, eich rheolaeth neu'ch perchnogaeth a/neu fod un o'ch archwilwyr allanol yn ymddiswyddo;
19. bod unrhyw newid, parhaol neu dros dro, i'ch cyfranddalwyr, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr neu'ch partneriaid a/neu Bersonél a all effeithio ar eich gallu i gyflawni'r Dibenion;
20. bod unrhyw ddigwyddiad, neu unrhyw amgylchiadau'n codi, sydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu y gallech beidio â chyflawni neu gydymffurfio ag unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau hyn, neu y gallech fod yn analluog i wneud hynny.



MAE ANGEN LLOFNOD DAU BERSON

Rydym yn datgan ein bod wedi ein hawdurdodi'n briodol i dderbyn y dyfarniad Cyllid o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru a'r Amodau sy'n gysylltiedig â'r Cyllid (GSU00)

_____ Llofnod
Llofnodwr awdurdodedig ar ran xxxx

_____ Enw

_____ Teitl Swydd

_____ Dyddiad

_____ Llofnod
Llofnodwr awdurdodedig ar ran **xxxx**

_____ Enw

_____ Teitl Swydd

_____ Dyddiad